YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

Tymor y Gwanwyn 2022 — Dosbarth Blwyddyn 3

# EIN BWRDD




## 'BANT A NI I GYNLLUNIO'

*'Hoffwn i ddarganfod sut mae sain yn cael ei greu'*

*Dylan*

*'Hoffwn i wybod am geddorion a chyfansoddwyr o Gymru.'*

*Gabrielle*

*'Hoffwn i ddysgu enwau offerynnau.'*

*Elsa*

*'Hoffwn i wybod pwy sy'n arwain cerddorddfa.'*

*Cadi*

*'Hoffwn i wybod sawl offeryn gwhanol sydd mewn cerddorddfa.'*

*Aron*

*'Hoffwn i ddysgu sut i berfformio gyda offeryn.'*

*Bruno*

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

Tymor y Gwanwyn 2022 – Dosbarth Blwyddyn 3

# Cymru Gwlad Y Gân!

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

## Y Dyniaethau

- Mwynhewch sesiwn gerddoriaeth wythnosol gydag athrawes peripatetig.
- Sut y caiff cerddoriaeth ei ddefnyddio i ddathlu achlysuron pwysig.
- Dysgu am bwysigrwydd cerddoriaeth, dawnsiau, caneuon a barddoniaeth Gymreig a'r Eisteddfod.

## Y Celfyddydau Mynegiannol

- Archwilio ystod o offerynnau cerddorol.
- Dysgu sut i ddefnyddio offerynnau taro.
- Mwynhau canu ystod o ganeuon amrywiol.
- Ymateb i gerddoriaeth – dysgu am elfennau cerddorol syml.
- Dysgu am gerddorion enwog o Gymru.
- Mwynhau cynllunio, ymarfer a pherfformio i gynulleidfa.
- Gwerthuso ein perfformiadau a myfyrio.

## Iechyd a Lles

- Archwilio ein teimladau trwy wrando ac ymateb i gerddoriaeth
- Datblygu ein ffitrwydd trwy ddawnsio
- Deall y gall cerddoriaeth gael effaith ar ein lles meddyliol
- Datblygu ein hyder trwy berfformio I eraill
- Deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Sut mae sain yn cael ei greu a sut y mae'n dod o ystod o ffynonellau
- Archwilio'n syml sut y mae sain yn teithio
- Creu offeryn gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau
- Trafod nodweddion deunyddiau wrth ddidoli a dosbarthu offerynnau
- Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau digidol, gan gynnwys cyfansoddi cerddoriaeth.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a barddoniaeth.
- Datblygu ein sgiliau darllen yn y Gymraeg a Saesneg.
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a pharhau i ddysgu ffurfio llythrennau yn gywir.
- Dablygu ein sgiliau llafar yn y Gymraeg a Saesneg.
- Dysgu am gyflythreniad ac odl
- Ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, gan gynnwys barddoniaeth sy'n defnyddio odl

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol. Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

## Mathemateg a Rhifedd

- Darllen a haneru lluosrifau 3 digid o 100.
- Deall a dosrannu rhifau 3 ddigid.
- Dyblu rhifau 3 ddigid.
- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 1000
- Ymarfer a gwella ein sgiliau adio, tynnu, rhannu a lluosi.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur hyd a pharhau i ddysgu darllen y cloc
- Chwarae gemau mathemateg pen
- Dysgu sut i gasglu, trefnu a dadansoddi data